PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol: **7 Tachwedd 2024**

Cadeirydd:	**Cynghorydd C.Galsworthy**
Cynghorwyr:	O.S.Davies, S.E.Freeguard, J.Jones, A.R.Lockyer, A.Lodwig, P.D.Richards, D.Whitelock a/ac C.Williams
Swyddogion sy'n Bresennol:	R.Davies, C.Howard, A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, E.Wellington, A.Bradshaw, C.Jones, S.Coe, M.Potts, E.O'Brien, G.Hargest, G. Powell, H.Jones, V.Smith,M.Weaver a/ac P.Chivers
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr S.Harris a/ac J.Hale

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024 fel cofnod cywir.

4. **YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet

(a) **Cyllideb 2025/26**

Dywedodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai wrth aelodau fod y broses o benderfynu ar gyllideb wedi bod yn anodd, roedd yr arbedion gofynnol o 5% o'r gyfarwyddiaeth gwerth £5.4m yn ystod cyfnod lle mae pwysau cynyddol ar wasanaethau a chymhlethdodau anghenion. Nododd y Cyfarwyddwr fod asiantaethau eraill megis yr heddlu, gwasanaethau carchardai a chyfnod phrawf yn ogystal â rhai meysydd iechyd, yn lleihau gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed ac roedd hyn yn creu galw ychwanegol.

Rhoddodd y Penaethiaid Gwasanaeth drosolwg o bob un o'r cynigion cyllideb a gynhwysir yn yr adroddiad.

Cyfeirnod SSH&CS-A: Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau wrth aelodau mai'r arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig ar gyfer yr adran oedd £112k a chaiff hynny ei gyflawni drwy leihau costau wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd drwy ailgynllunio gwasanaethau ac atal pobl rhag bod mewn sefyllfa lle mae angen llety dros dro. Mae hyn yn unol â'r strategaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol.

Gwnaed gwaith i ailstrwythuro'r Tîm Opsiynau Tai ym mis Awst ac mae swyddogaeth tai strategol ar waith. Mae'r targed effeithlonrwydd yn gysylltiedig â'r timau sydd bellach ar waith ac mae'r gwaith yn y strategaeth yn cael ei ddatblygu.

Cyfeirnod SSH&CS-B. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wrth aelodau fod yr arbediad a ragwelir o £232k yn ymwneud â gostyngiad naturiol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Bydd gostyngiad yn nifer y lwfansau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd ond a fydd yn dod i ben pan fydd y person ifanc yn troi'n 18 oed.

Holodd yr aelodau sut yr effeithir ar y ffigwr hwn pe bai cynnydd yn nifer y bobl ifanc y mae angen gofal arnynt yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y darperir ar gyfer unrhyw blentyn y mae angen gofal arnynt. Fodd bynnag, oherwydd y gwasanaeth a sefydlwyd ac ansawdd arferion gwaith cymdeithasol, bu tuedd ar i lawr dros y 10 mlynedd diwethaf yn nifer y bobl ifanc y

mae angen gofal arnynt, ac er bod hyn yn risg, rhagwelir y bydd y niferoedd yn lleihau unwaith eto.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o'r term 'plant nad ydynt yn derbyn gofal' a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y term hwn yn ymwneud â phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol ond daeth y gofal i ben pan roedd y plentyn yn 18 oed.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 20 yr adroddiad a'r cynnwys canlynol, 'yn hanesyddol mae'r tanwariant ar gyfer lwfansau mewnol wedi gwrthbwyso gorwariant darpariaethau preswyl allanol' a gofynnwyd a ana rbedwyd y tanwariant ac a oedd yn gysylltiedig â'r cynnig cyllideb hwn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y gellid trafod hyn o dan gynnig cyllideb ddiweddarach.

Gofynnodd yr Aelodau am ddata mewn perthynas â'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Esboniodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai nad yw'r awdurdod lleol bellach yn gofalu am blant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig ac maent yn cael eu hystyried yn blant nad ydynt yn derbyn gofal.

Holodd yr aelodau a oedd angen trafnidiaeth ar unrhyw un o'r plant nad oeddent yn derbyn gofal.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y gallai hyn fod yn wir, cefnogwyd y bobl ifanc i aros gyda'u gwarcheidwaid arbennig neu'u rhieni mabwysiedig.

SSH&CS-C Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wrth aelodau y cynhaliwyd adolygiad o weithwyr cefnogi o fewn y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd. Roedd y cynnig ar gyfer gweithlu mwy hyblyg, gyda staff cymorth ar raddfa is sy'n gallu darparu cymorth ymarferol y tu allan i oriau swyddfa traddodiadol.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch effaith negyddol y cynnig.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r ymarfer hwn wedi cael ei gynnal ni waeth beth oedd yr arbedion cyllideb angenrheidiol. Yr adborth a gafwyd gan deuluoedd oedd bod angen cefnogaeth fwy hyblyg. Roeddent yn hyderus y gellid cyflawni'r cynnig cynilo hwn heb effaith, ond pe bai'r ymarfer yn cael ei ailadrodd, yna byddai effaith ar gyflenwi gwasanaethau.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr wybodaeth am gynigion cyllideb a ddarparwyd yn gyfyngedig. Roedd angen ystyried unrhyw gyfeiriad at effeithiau negyddol yn ofalus. Cydnabuwyd bod risgiau ynghylch rhai cynigion cyllideb ond roeddent yn hyderus y byddai staff yn ystyried y risgiau'n briodol. Mae disgwyl y byddai unrhyw risgiau'n cael eu hailgyflwyno i'r pwyllgor i'w hystyried ymhellach.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod cynigion ar gyfer arbedion gwerth £1.4m ond roedd ganddynt hyder y gellid cyflawni'r rhain yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, bydd unrhyw leihad pellach yn y gwasanaethau cefnogi'n cael effaith uniongyrchol ar y teuluoedd mwyaf agored i niwed.

Holodd yr aelodau a fyddai'r gostyngiad mewn costau staffio yn cael ei gyflawni'n naturiol neu a fyddai diswyddiadau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod staff, adnoddau dynol ac undebau'n cyfarfod yn fuan i drafod hyn ymhellach. Efallai y bydd gan rai staff ddiddordeb mewn ymddeoliad hyblyg neu golli swydd yn wirfoddol o bosib. Rhagwelwyd y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd yn naturiol.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y cynnig a holwyd a oedd hyn yn risg uchel? Pe bai'r cynnig yn arwain at ddiswyddiadau, byddai angen rhagor o fanylion.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod modd cyflawni'r cynnig am arbedion oherwydd sefydlogrwydd y gwasanaeth ac nad oedd yn risg uchel fel ymarfer unigol. Byddai'r risg yn cynyddu pe bai'r ymarfer yn cael ei ailadrodd. Bydd papur yn cael ei ddatblygu a fydd yn darparu rhagor o fanylion am y math o waith a'r oriau y bydd staff yn gallu eu gweithio, er mwyn eu galluogi i fod yn fwy ymatebol a gweladwy yn y gymuned.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach ynghylch y posibilrwydd o gynyddu oriau staff a newid contractau ac a oedd argostau wedi cael eu hystyried.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth na fyddai cynnydd yn nifer yr oriau ond byddai newidiadau i oriau a chontractau. Mae'r contractau presennol yn nodi bod angen hyblygrwydd. Mae'r argostau wedi cael eu cynnwys yn y cynnig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi bod yn heriol nodi arbedion heb risg. Roedd staff wedi ceisio cael cydbwysedd rhwng arbedion a chadw cynigion mor risg isel â phosib. Unwaith y bydd gwaith pellach wedi'i gwblhau, gellir cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor craffu i'w ystyried ymhellach.

SSH & CS-D – Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wrth aelodau fod gostyngiad mewn lwfansau mewnol, costau asiantaethau allanol a chyllideb teithio gofalwyr. Yn hanesyddol mae'r tanwariant ar gyfer lwfansau mewnol wedi gwrthbwyso gorwariant darpariaethau preswyl allanol. Roedd niferoedd preswyl wedi dyblu, yn enwedig yn ystod COVID-19 ond maent yn dechrau lleihau. Wrth ddefnyddio'r tanwariant, mae perygl y bydd y byffer yn diflannu. Mae risg hefyd gyda'r posibilrwydd o
gysoni lwfansau maethu ar draws Cymru a allai arwain at gynnydd mewn taliadau gofalwyr maeth. Cynhaliwyd ymarfer i leihau costau teithio ac mae swm costau'r asiantaethau maethu annibynnol wedi lleihau sydd wedi cyfrannu at yr arbediad cyffredinol.

Holodd y Cadeirydd sut roedd y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gwneud cais i fod yn ofalwr maeth yn effeithio ar y gwasanaeth.

Cadarnhaodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, fel rhan o'r gwaith trawsnewid, roeddent yn ceisio gofalwyr maeth profiadol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn gofal preswyl er mwyn eu trosglwyddo i gartref teuluol, gyda chefnogaeth gynhwysol ar gyfer y gofalwyr. Bu cynnydd yn nifer yr asesiadau ar gyfer y math hwn o ofalwr a chynnydd yn nifer y gofalwyr maeth prif ffrwd posib sy'n cyflwyno'u hunain.

Gofynnodd yr Aelodau am ddata mewn perthynas â chostau a ffigurau ar gyfer pobl mewn gofal preswyl y tu allan i'r sir. Mynegwyd pryder y bydd pwysau cyllidebol yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n mynd i'r system ofal. Bydd lleihau lwfansau mewnol o bosib yn rhwystr i ddarpar ofalwyr maeth. Holodd yr Aelodau a oedd y cynnig cyllideb hwn yn realistig.

Dywedodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, wrth aelodau fod anghenion plentyn y mae angen gofal arnynt yn flaenoriaeth, hyd yn oed os yw hyn yn arwain at orwariant. Mae gorwariant ym maes gofal preswyl yn bwysau cyfredol y mae angen mynd i'r afael ag ef, fodd bynnag, ni fydd plant yn cael eu symud o ofal preswyl heb sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol mewn lleoliad eraill. Cadarnhawyd nad oedd lwfansau gofal maeth yn cael eu lleihau. Roedd y tanwariant yn y gyllideb faethu'n gysylltiedig â'r lleihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau drud y tu allan i'r sir mewn asiantaethau preifat. Cadarnhaodd y cyfarwyddwr fod risg yn gysylltiedig â'r cynnig a'r flwyddyn nesaf byddai nifer y plant mewn gofal preswyl yn llai na'r nifer presennol. O fewn y rhaglen drawsnewid mae cynlluniau ar waith ar gyfer camu i lawr, os na ellir cyflawni hyn o fewn yr amserlen, adroddir yn ôl am hyn, a bydd plant yn aros yn eu lleoliadau presennol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr am ei sicrwydd, ond dywedodd na ddylid rhoi pwysau ar staff, ac mae anghenion plant yn dod yn gyntaf.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod yr holl benderfyniadau wedi'u gwneud gyda diogelu fel blaenoriaeth.

SSH&CS-E Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, wrth yr aelodau fod y cynnig ar gyfer cynhyrchu incwm. Mae darpariaeth ar draws Cymru lle gellir cynnig lleoliadau maeth nad ydynt yn cael eu defnyddio i awdurdodau cyfagos am gost rad. Mae'r cynllun yn cefnogi anghenion ar draws awdurdodau eraill ac yn caniatáu i ofalwyr maeth ofalu am blant. Cadarnhaodd swyddogion fod yr incwm a gynhyrchwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf oddeutu £52,000 ond mae'r swm yn ddibynnol ar nifer a hyd y lleoliadau.

SSH&CS-F – Cadarnhaodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod yr arbediad arfaethedig yn ymwneud â swydd ymwelydd iechyd a ariennir ar y cyd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyfrannu at y cyllid ac mae trefniant arall ar waith ar gyfer y gwasanaeth.

SSH&CS – G Esboniodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wrth yr aelodau fod y gyllideb gwariant dewisol wedi'i dyrannu i dimau a'i bod yn cael ei defnyddio i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng.

SSH&CS- H Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wrth aelodau fod cost llwybrau tacsi plant sy'n derbyn gofal wedi'i lleihau drwy gydweithio ar draws y Cyngor.

Holodd yr Aelodau a oeddent yn cyfeirio at dacsis y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Adran Addysg.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth mai tacsis yr Adran Addysg oedden nhw.

Dywedodd yr Aelodau y byddai'r gost yn dod o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a nodwyd bod problemau gyda theuluoedd y mae angen trafnidiaeth arnynt, ond mae'r ddarpariaeth wedi cael ei thorri. Mae ymgynghorwyr wedi cael eu cyflogi i gynnal adolygiad trafnidiaeth, am gost, ac roedd aelodau'n teimlo y gallai staff fod wedi cynnal yr adolygiad.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth sicrwydd i'r aelodau fod trafnidiaeth yn cael ei ddarparu o hyd ac nad oedd unrhyw enghreifftiau lle na ddarparwyd trafnidiaeth i deuluoedd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan staff sy'n cefnogi teuluoedd. Mae gofalwyr maeth yn darparu trafnidiaeth. Ni fu toriad i nifer y teithiau a wnaed ond cafwyd ymagwedd wahanol wrth eu darparu.

Mewn perthynas â chynigion cyllideb **SSH&CS-I – SSH&CS-P**, cadarnhaodd Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod gwerth £3.9m o arbedion a gwerth £1.3m o swyddi gwag y mae'n rhaid eu nodi yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae rhywfaint o'r naratif yn gryno yn bwrpasol, mae'r wybodaeth yn sensitif a bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Bydd yr holl gynigion yn destun gwaith dilynol, sef adroddiadau manwl ar gyfer y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

SSH&CS-I – Cynhelir adolygiad o Daliadau Uniongyrchol. Efallai bod gormod o alw am rai pecynnau gofal. Mae symiau sylweddol o arian wedi cronni mewn cyfrifon banc lle mae oedi o ran apwyntiadau cynorthwywyr personol ac mae problemau sy'n gysylltiedig â chyfrifon a reolir.

Cwestiynodd yr aelodau sut roedd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar y Cyngor?

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai ailasesiadau'n cael eu cynnal gan Weithwyr Cymdeithasol i sicrhau bod y pecynnau gofal maint cywir ar waith. Mae gan yr awdurdod ddyletswydd o dan y

ddeddf i gynnig taliad uniongyrchol, ond mae angen edrych ar wahanol ganlyniadau a sut y cânt eu cyflawni er mwyn sicrhau nad taliad uniongyrchol yw'r unig ateb.

Holodd yr Aelodau a fyddai gweithdrefn apelio a dywedwyd, os felly, y byddai goblygiad ariannol i hyn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod hyn yn wir ar hyn o bryd a bydd hyn yn parhau.

SSH&CS-J/SSH&CS-K/SSH&CS-N Cadarnhaodd Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion fod y cynigion ar gyfer datblygu darpariaeth fewnol ar gyfer anghenion gofal cymhleth. Roedd y cynigion yn cynnwys y safle yng Ngelligron ar gyfer darpariaeth byw â chymorth neu ofal ychwanegol, gwasanaethau dydd ychwanegol yn Afan Nedd o bosib a chynyddu nifer y gwelyau seibiant yn Nhrem y Môr. Nodwyd ar hyn o bryd roedd 19 o bobl â phroblemau iechyd meddwl ac roedd 26 o bobl ag anableddau dysgu'n byw mewn lleoliadau byw â chymorth neu leoliadau preswyl sy'n costio £4.5m i'r Cyngor. Trwy ddatblygu darpariaeth fewnol, rhagwelwyd y gellid gwneud arbediad o £2m. Fodd bynnag, roedd perygl na fydd modd cyflawni hyn o fewn yr amserlenni gofynnol.

Holodd yr aelodau a oedd ffigwr yr arbedion yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y ffigyrau wedi'u cyfrifo ac ar hyn o bryd roedd 45 o bobl mewn lleoliadau nad oes angen iddynt fod ynddynt. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth amgen na mewnol a gall darparwyr allanol godi prisiau uchel, £4k - £8k yr wythnos ar gyfartaledd. Mae hwn yn gynnig buddsoddi i arbed.

Holodd yr Aelodau a fyddai prosesau mewnol yn oedi'r prosiect ac yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r cynigion hyn o fewn amserlenni penodol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth aelodau fod y Cyfarwyddwr yn cadeirio rhaglen drawsnewid ac mae swyddog penodol ar waith mewn perthynas â'r agenda trawsnewid. Mae cynnydd yn cael ei wneud a byddant mewn sefyllfa well o fis Ionawr ymlaen. Nodwyd bod osgoi risgiau gan ddarparwyr yn broblem sy'n wynebu'r gwasanaeth a gellid rheoli risgiau'n well yn fewnol.

SSH&CS-L Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion wrth aelodau fod adolygiad parhaus yn cael ei gynnal gan y tîm comisiynu i adolygu lleoliadau, cynlluniau byw â chymorth a herio costau darparwyr allanol. Eleni arbedwyd £720k ac mae yna hyder bod modd gwneud arbediad o £650k ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cadarnhawyd nad oedd yr adolygiad wedi arwain at unrhyw leihad i wasanaethau.

SSH&CS-M Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion wrth aelodau fod y cynnig ar gyfer adolygiad o'r gwasanaethau gofal cartref yn y gymuned ac mewn cynlluniau byw â chymorth. Mae'r cynnig yn cyflwyno rhywfaint o risg ond gyda'r defnydd o dechnoleg, roedd hyder y gellid cyflawni'r arbediad. Nodwyd na fyddai lleihad mewn pecynnau gofal ond byddwn yn adolygu'r holl gefnogaeth. Mae problemau ynghylch costau gwasanaethau eistedd gyda phobl a thrwy ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol neu gan ddefnyddio sefydliadau trydydd sector, gellid lleihau'r gost.

Cwestiynodd yr aelodau a fyddai arbedion effeithlonrwydd lleoliad yn effeithio ar ysbytai gyda blocio gwelyau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth nad oedd hynny'n wir. Roedd arbedion effeithlonrwydd lleoliadau'n ymwneud â chostau heriol a gorbenion sy'n cael eu codi o fewn trefniadau byw â chymorth.

SSH&CS-O Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion wrth yr aelodau, trwy greu nifer o leoedd ailalluogi preswyl yn Nhrem y Glyn, y bydd y Cyngor yn gallu darparu cyfnod o seibiant i bobl o'r gymuned ac o ysbytai am hyd at chwe wythnos, a byddai pobl yn dychwelyd adref gyda phecyn gofal llai neu heb becyn gofal o gwbl. Byddai'r arbedion yn ddibynnol ar y ffaith bod deuddeg gwely, mae pedwar gwely ar gael ar hyn o bryd gyda'r posibilrwydd o ddau wely ychwanegol yn fuan.

SSH&CS-P Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion wrth aelodau y byddai unrhyw leihad yn nifer y staff yn ddewis olaf. Os oes angen arbedion pellach, bydd rhannau o'r gwasanaeth yn cael eu hailstrwythuro. Bu rhywfaint o ddiddordeb mewn ymddeoliad cynnar.

Cadarnhaodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai nad oedd y cynigion yn hawdd i'w rhoi ar waith ac nad oedd modd dod o hyd i arbedion heb gael effaith ar wasanaethau. Mae angen gwneud rhagor o waith ar rai o'r cynigion a bydd aelodau'n cael eu diweddaru drwy gydol y broses.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad a'r awgrymiadau a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan y pwyllgor.

(b) **Strategaeth Comisiynu Lleoliadau i Blant CNPT 2024-2027**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad cynhwysfawr.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr adran gefndir ar dudalen 20 adroddiad y Cabinet, a gofynnwyd i ychwanegu testun at yr adroddiad i adlewyrchu'r ffaith y bydd y Cyngor yn cefnogi plant i aros gyda rhiant neu berson â chyfrifoldeb rhiant, lle bydd yn ddiogel i wneud hynny. Roedd yn bwysig cyfeirio at ddiogelu gan mai dyma'r prif ffocws. Gofynnodd yr Aelodau am ddata ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau megis gofalwyr maeth, cartrefi preswyl i blant neu lety â chymorth.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r newid i'r adroddiad a awgrymir yn cael ei gwblhau a byddai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei darparu i'r aelodau.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd yr aelodau'r argymhelliad a amlinellwyd yn adroddiad drafft y Cabinet.

5. **YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU**

(a) **Adroddiad ynghylch y Diweddaraf am Raglenni Trawsnewid Tai a Chymunedau**

Rhoddodd y Pennaeth Tai a Chymunedau drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda a dywedwyd wrth aelodau fod cynnydd boddhaol wedi'i gyflawni yn erbyn y rhaglenni gwaith.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 89 yr adroddiad a gofynnwyd a allai Swyddogion ddarparu enghreifftiau o'r gwahanol fathau o fodelau sydd wedi'u dadansoddi.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr yn yr adran gomisiynu, i adolygu gwahanol fathau o fodelu. Mae angen edrych ar amrywiaeth o opsiynau llety â chymorth llawn. Y gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu'n fuan, yn dilyn digwyddiadau gyda chydweithwyr comisiynu, darparwyr

gwasanaethau a chyfarfodydd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynghori ar gyfleoedd gydag eiddo.

Holodd yr aelodau a oedd swyddogion yn cyfeirio at fodel y system neu fodelau tai gwahanol?

Cadarnhaodd swyddogion fod modelau tai gwahanol fel tai cynhwysyddion a chychod camlesi wedi cael eu harchwilio, fodd bynnag, mae'r gost yn uchel. Mae papur briffio'n cael ei ddatblygu. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i ddeall anghenion cleientiaid i helpu i broffilio'r math o lety y mae ei angen.

Cyfeiriodd yr aelodau at yr adolygiad o lwyfan TG opsiynau tai a gofynnwyd sut y gallai pobl ddigartref gael mynediad at wybodaeth ddigidol. Dywedodd yr Aelodau nad oedd y dudalen yn hawdd ei defnyddio.

Diolchodd y Pennaeth Tai a Chymunedau i'r aelodau am yr adborth a chadarnhaodd fod gwaith yn mynd rhagddo.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r adran Trawsnewid Digidol mewn perthynas â gofynion TG brys ar gyfer y gwasanaeth. Cydnabuwyd nad oedd yr wybodaeth ar y wefan yn foddhaol. Mae intern o Brifysgol Abertawe'n gweithio gyda'r gwasanaeth i alluogi cyfleoedd ymgysylltu gwell.

Dywedodd yr aelodau ei fod yn bwysig ystyried anghenion pobl wrth gael mynediad at wybodaeth.

Cyfeiriodd yr aelodau at y nifer cynyddol o osodiadau a chost eiddo rhent. Mae problem ar hyn o bryd gyda landlordiaid preifat yn gwerthu eiddo rhent. Holodd yr aelodau a oedd newid yn nifer yr hysbysiadau Adran 21.

Cadarnhaodd swyddogion fod y sefyllfa'n sefydlog ar hyn o bryd ac nad oedd cynnydd yn yr hysbysiadau Adran 21, fodd bynnag, nid yw'r sector yn hygyrch i rai cleientiaid oherwydd cost rhent. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi swyddog sector preifat sy'n cynnal gwiriad argaeledd wythnosol ond nid yw'r gost rhent o fewn cyllidebau pobl.

Rhannodd yr aelodau bryder ynghylch cost eiddo rhent. Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 19 yr adroddiad o fewn y pecyn agenda a gofynnwyd a oedd diweddariad o'r dadansoddiad a wnaed o lety dros dro yn The Ambassador a Treetops.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau wrth aelodau fod mwy o waith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i wneud i ddeall anghenion cyfannol pobl mewn llety dros dro. Mae heriau o ran ennill tenantiaethau oherwydd anghenion cymorth.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod adroddiadau ar The Ambassador Gwesty Treetops wedi'u paratoi ac ystyriwyd yr elfen gost ar gyfer y ddau opsiwn hwnnw. Mae gwaith wedi'i wneud i ddeall y llwybrau tai posib, ac i reoli disgwyliadau pobl i sicrhau bod y llwybr yn hygyrch. Mae pobl a allai fod wedi bod yn gaeth yn y system yn cael eu cefnogi. Mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod pobl sy'n gymwys i symud ymlaen yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd drwy ddangos diddordeb a derbyn eiddo. Bydd gwaith yn parhau gyda Tai Tarian i sicrhau bod y gofrestr tai yn gyfredol fel bod yr holl gleientiaid y mae ganddynt hawl i ddyletswydd ddigartrefedd yn cael eu gosod yn gywir. Caiff y Cytundebau Rhannu Data gyda Tai Tarian eu hadolygu gydag adolygiad llawn o'r Polisi Gosodiadau Tai a Rennir yn 2026. Mae nifer o arsylwadau a gofynion i'w hystyried er mwyn eu cynnwys yn y polisi a chaiff y rhain eu rhannu â'r pwyllgor craffu yn nes ymlaen.

Gofynnodd yr Aelodau a oeddent yn cyfarfod â chleientiaid wyneb yn wyneb pan wnaed penderfyniadau neu a oedd penderfyniadau'n seiliedig ar waith papur. Mynegwyd pryder y gallai pobl gael eu barnu mewn ffordd annheg yn ôl gwaith papur.

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd pob penderfyniad yn cael ei wneud wyneb yn wyneb ar hyn o bryd. Mae cyfleoedd yn cael eu harchwilio gyda Tai Tarian i fod yn gydweithredol ac i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae nifer uchel o ymgeiswyr yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr yn wythnosol, sy'n ei wneud yn anodd cynnal asesiadau anghenion tai wyneb yn wyneb. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Tai Tarian i gael ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ar gyfer cleientiaid opsiynau tai sydd â hawl i ddyletswydd ddigartref. Mynegwyd pryder bod nifer y bobl sydd ar y gofrestr tai wedi cynyddu, mae gwaith dadansoddi'n cael ei wneud i benderfynu ar y rheswm dros hyn. Cytunodd swyddogion ar fanteision cwrdd â chleientiaid wyneb yn wyneb a rhoddwyd enghraifft o wrthdroi penderfyniad yn dilyn ymyrraeth.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am eiddo gwag ar draws y fwrdeistref yn cael ei defnyddio unwaith eto.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau wrth aelodau fod cyllid ar gael er mwyn i bobl wneud cais am grant i alluogi cartrefi gwag i gael eu defnyddio unwaith eto . Mae hyn ar wahân i'r darn ehangach o waith a wneir gan Iechyd yr Amgylchedd mewn perthynas ag eiddo gwag ar draws y fwrdeistref. Cadarnhaodd swyddogion fod eiddo ar gamau amrywiol o fewn y cynllun. Mae naw safle wedi'u cwblhau hyd yma gyda 155 o geisiadau ar gyfer y cynllun. Mae'r cynllun yn llawn ar hyn o bryd ac nid yw wedi'i leoli mewn unrhyw ardaloedd penodol yn y fwrdeistref. Ar hyn o bryd mae eiddo gwag penodol yn ardal Pontardawe. Mae 15 eiddo wedi'u cyflwyno gan iechyd yr amgylchedd gydag archwiliadau'n cael eu cynnal dros yr wythnosau nesaf. Adroddir am y cynnydd i'r pwyllgor yn yr adroddiad diweddaru nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau am gopi o'r adroddiad dadansoddi mewn perthynas â'r llety dros dro yn The Ambassador a Treetops.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch Cynllun Prydlesu Cymru a gofynnwyd am ragor o wybodaeth.

Cadarnhaodd swyddogion fod rhai o'r cynlluniau'n llwyddiannus ond gall landlordiaid gael llawer mwy o rent yn y farchnad breifat na gyda'r cynllun prydlesu. Cafwyd 30 o ymholiadau dros y pythefnos diwethaf yn dilyn gwaith hyrwyddo gan Rhentu Doeth Cymru. Nid oedd rhai eiddo'n addas i'w cynnwys yn y cynllun oherwydd y cyfyngiad o £25k. Mae dau eiddo ar y cam olaf yn y broses a disgwylir iddynt gwblhau'r broses gyfreithiol yn ystod y ddwy i dair wythnos nesaf. Mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo cymaint â phosib yn y fforymau landlordiaid. Mae diddordeb wedi bod yn y cynllun ond mae landlordiaid yn colli diddordeb oherwydd y lwfans tai lleol isel.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

6. MONITRO PERFFORMIAD

Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor fod adroddiadau perfformiad Chwarter 1 a Chwarter 2 wedi'u hychwanegu at y flaenraglen waith ar gyfer 12 Rhagfyr, gydag adroddiadau perfformiad chwarterol yn cael eu derbyn ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nid oedd adroddiadau monitro perfformiad i'w hystyried.

7. **DETHOLIADAU O EITEMAU I GRAFFU ARNYNT YN Y DYFODOL**

Hysbyswyd yr aelodau gan swyddogion o eitemau newydd a oedd wedi cael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Cabinet a newidiadau i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn am eitemau pellach i'w hystyried.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau y cynhelir Seminar ar gyfer yr Holl Aelodau am Ddiogelu ar 21 Tachwedd. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi gofyn am adroddiad ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bydd y pwnc hwn yn cael ei gynnwys yn y seminar. Os oes gan aelodau ragor o gwestiynau am y pwnc hwn, gellir cynnwys adroddiad yn y Flaenraglen Waith.

Gofynnodd yr Aelodau am ddata mewn perthynas â'r Gofrestr Amddiffyn Plant.

Cadarnhaodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai y gellid anfon y data hwn at y pwyllgor yn ogystal â'r wybodaeth a ddarparwyd yn y seminar.

Nododd yr Aelodau'r Flaenraglen Waith.

8. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

10. **CRAFFU AR EITEMAU PREIFAT O FLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Trafododd yr aelodau yr eitemau preifat a ddewiswyd o Flaenraglen Waith y Cabinet.

(a) **Achos busnes dros sefydlu Gwasanaeth Seibiannau Byr Mewnol ar gyfer Plant ag Anableddau**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron y Cabinet.

(b) **Achos busnes dros sefydlu Gwasanaeth Seibiannau Byr Mewnol Cyswllt Teulu ar gyfer Plant ag Anableddau**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron y Cabinet.

(c) **Adroddiad y Rheolwr ar Gartref Diogel i Blant Hillside**

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad

(d) **Diweddariad ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a Chartref Diogel i Blant Hillside**

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad

(e) **Adroddiad Effaith Arweiniad Diogelwch Tân**

Gohiriwyd yr eitem hon.

11. **CRAFFU AR EITEMAU PREIFAT O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU**

Trafododd yr aelodau yr eitem breifat ar flaenraglen waith y Pwyllgor Craffu.

(a) **Adroddiad ynghylch y Diweddaraf am Raglenni Trawsnewid Gwasanaethau i Blant**

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cynghorydd C.Galsworthy
CADEIRYDD